# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, Oasis Healthcare Ltd / Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 7 Medi 2017

Dyddiad cyhoeddi: 8 Rhagfyr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

E-bost: **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
Gwefan:**www.agic.org.uk**



ISBN digidol 978-1-78859-394-6



© Hawlfraint y Goron 2017

## Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom .................................................. 5

2. Crynodeb o'n canfyddiadau .................................................. 6

3. Yr hyn a ganfuom .................................................. 7

   Ansawdd profiad y claf .................................................. 8

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol .................................................. 12

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth .................................................. 17

4. Beth sydd nesaf? .................................................. 19

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol .................................................. 20

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad 21

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith .................................................. 22

   Atodiad C – Cynllun gwella .................................................. 23

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Pwyslais ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu ac yn gwneud dyfarniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn rydym yn ei weld**
- **Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac allanol**
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Rhoi sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant drwy adrodd am arfer da a'i rannu.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn rydym yn ei weld i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arferion.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cwblhaodd AGIC arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Smiles Pen-twyn, sy'n rhan o Oasis Healthcare Ltd, ar Pentwyn Drive, Pen-twyn, Caerdydd, CF23 7EY, o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, ar 7 Medi 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Archwiliodd AGIC y ffordd roedd y gwasanaeth yn diwallu'r Safonau Iechyd a Gofal (2015).

Gellir gweld gwybodaeth bellach am y ffordd rydym yn cynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

## 2. Crynodeb o'n canfyddiadau

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, yn darparu gofal diogel ac effeithiol i'w gleifion mewn amgylchedd dymunol a chyda staff cyfeillgar, proffesiynol ac ymroddedig. Roedd y cleifion yn fodlon iawn â'r gwasanaeth a ddarperir.

Gwelsom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Roedd y cleifion yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperir
- Roedd y tîm staff yn gyfeillgar, yn groesawgar ac yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel
- Roedd gan y cyfleusterau clinigol gyfarpar da ac roeddent yn lân, yn daclus ac yn drefnus
- Roedd yr offer deintyddol wedi cael eu glanhau a'u sterileiddio'n briodol
- Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnydd diogel o belydrau-X

Rydym yn argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Gwybodaeth a thaflenni pellach ynghylch hybu iechyd cleifion
- Rhaid cynnal adolygiad a chymryd camau gweithredu o ran gwneud y mynediad at y storfa a'r ystafell ddadheintio'n fwy diogel
- Mae angen dilysiad pellach ar gyfer statws gwirio brechiad imiwneiddio tair nyrs ddeintyddol
- Rhaid i Oasis Healthcare Ltd ddiwygio ei bolisi rheoli heintiau ar gyfer practisau deintyddol yng Nghymru i gyfeirio at Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (WHTM 01-05) ac nid Memorandwm Technegol Iechyd 01-05 (HTM 01-05)

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Mae Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, sy'n rhan o Oasis Healthcare Ltd, yn darparu gwasanaethau i gleifion yng Nghaerdydd a'r cyffiniau. Mae'r practis yn rhan o'r gwasanaethau deintyddol a ddarperir o fewn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Mae gan y practis dîm staff sy'n cynnwys pedwar deintydd, dau hylenydd, chwe nyrs ddeintyddol, un nyrs ddeintyddol dan hyfforddiant, un rheolwr practis ac un derbynnydd.

Mae'r practis yn darparu amrediad o NHS and privatewasanaethau deintyddol cyffredinol.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Ar y cyfan, canfuom fod Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, yn gweithio'n galed i ddarparu profiad o ansawdd da i boblogaeth ei gleifion. Roedd yr adborth a gafwyd trwy ein holiaduron cleifion yn gadarnhaol. Fodd bynnag, daethom ar draws peth tystiolaeth nad oedd y practis yn cydymffurfio'n llwyr â'r holl Safonau Iechyd a Gofal ym mhob maes.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn casglu safbwyntiau am y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd a dychwelwyd cyfanswm o 18 o holiaduron. Cafodd y rhan fwyaf o'r holiaduron eu cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers dros ddwy flynedd. Ar y cyfan, roedd adborth y cleifion yn gadarnhaol iawn. Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r practis deintyddol wella'r gwasanaeth a ddarperir, ac ymysg rhai o'r ymatebion yr oedd:

> *"Mwy na bodlon"*
>
> *"Ar un adeg, roedd llawer o oediadau ond mae hyn fel petai wedi'i wella"*

### Cadw'n iach

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach. Mae gwybodaeth hybu iechyd yn cynorthwyo cleifion i fod yn gyfrifol am eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Dylai'r practis ddarparu mwy o wybodaeth ynghylch hybu iechyd deintyddol yn y mannau aros. Bydd hyn yn golygu bod y cleifion yn gallu cael mynediad at wybodaeth a allai eu hannog i ofalu am hylendid eu ceg. Roedd arwyddion 'dim ysmygu' wedi'u harddangos yn y dderbynfa/man aros.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros.

## Gofal ag urddas

Roedd pob claf a gwblhaodd yr holiadur yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch wrth ymweld â'r practis. Gwelsom y dull cynnes, cyfeillgar a phroffesiynol roedd y staff yn ei ddefnyddio wrth ymdrin â chleifion.

Roedd lle ar gael i staff gael sgyrsiau â chleifion mewn man preifat i ffwrdd o gleifion eraill, pe bai angen, er mwyn cynnal cyfrinachedd cleifion. Gwelsom fod y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ddeintyddol (lle'r oedd cleifion yn derbyn gofal ar ddiwrnod ein harolygiad) wedi'u cadw ar gau i gynnal preifatrwydd ac urddas.

### Gwybodaeth cleifion

Dywedodd y rhan fwyaf o gleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym eu bod wedi derbyn gwybodaeth glir ynghylch eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys opsiynau triniaeth sydd ar gael a'u costau. Fodd bynnag, dywedodd bron i draean o gleifion a gwblhaodd holiadur nad oeddent yn deall sut roedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo. Gwelsom fod gwybodaeth am brisiau triniaeth y GIG a thriniaeth breifat ar gael yn y man aros, er mwyn i gleifion gael eu hysbysu am gostau.

Mae'r practis yn darparu gwybodaeth i'r cleifion am y practis mewn taflen o'r enw 'Ein Tîm', sydd ar gael yn yr ystafell aros. Gwelsom fod manylion y deintyddion sy'n ymarfer yn y practis ac oriau agor y practis yn cael eu harddangos y tu allan i'r adeilad.

### Cyfathrebu'n effeithiol

Er bod y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wedi dweud wrthym eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith o'u dewis nhw ar bob adeg, dywedodd bron i chwarter o'r cleifion wrthym nad oeddent byth yn gallu siarad â'r staff yn eu hiaith o'u dewis.

Mae gan y practis grŵp cleifion eang gydag amrywiaeth o ofynion cyfathrebu, ac roedd yn dda nodi bod ffolder ar gael yn yr ystafell aros a oedd yn cynnwys

gwybodaeth allweddol wedi'i chyfieithu i lawer o ieithoedd gwahanol, gan gynnwys Cymraeg. Roedd hyn yn dangos bod y practis yn rhagweithiol wrth gefnogi materion cyfathrebu lle bo angen.

Dylai'r practis fod â threfniant ffurfiol ar waith i gael mynediad at wasanaethau dehongli. Rydym wedi awgrymu y dylai'r practis gynnig gwasanaethau dehongli i gleifion y gallent fod eu hangen.

## Gofal amserol

Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur y byddent yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol y tu allan i oriau pe byddai problem ddeintyddol frys ganddynt. Gwelsom fod y rhif cyswllt brys y tu allan i oriau yn cael ei arddangos y tu allan i'r practis. Mae'r practis yn ceisio sicrhau bod gofal deintyddol yn cael ei ddarparu mewn modd amserol bob amser, a dywedwyd wrthym, a gwnaethom arsylwi, fod y derbynnydd yn hysbysu'r cleifion ynghylch y rhesymau dros unrhyw oedi annisgwyl.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Cadarnhaodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Gwelsom dystiolaeth o gynllunio triniaeth a'r opsiynau'n cael eu trafod gyda'r cleifion. Gwelsom dystiolaeth fod cleifion yn cael gwybod am sut i ofalu am eu dannedd/deintgig a'u hannog i wneud hynny ar ôl apwyntiadau a rhyngddynt.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis bolisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith. Mae esgynfa i fynedfa'r practis a mynediad gwastad i'r ystafell aros a'r ystafelloedd triniaeth ar y llawr gwaelod, ar gyfer cleifion sydd ag anawsterau symudedd a defnyddwyr cadair olwyn. Mae toiled mynediad anabl hefyd ar gael ar y llawr gwaelod.

### Gwrando a dysgu o adborth

Dywedodd dros draean o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym nad oeddent yn gwybod sut i wneud cwyn neu fynegi pryder ynghylch y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn y practis deintyddol. Fodd bynnag, canfuom fod gan y practis weithdrefn ysgrifenedig ar gyfer ymdrin â phryderon (cwynion) am driniaeth ddeintyddol y GIG. Roedd y weithdrefn gwyno hon yn cydymffurfio â'r trefniadau ynghylch nodi pryderon am driniaeth y GIG yng Nghymru (a adnabyddir fel 'Gweithio i Wella').[1] Roedd gwybodaeth ar gael yn ogystal i gleifion preifat ynghylch sut i wneud cwyn, a oedd yn unol â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat Cymru 2008.[2] Cafodd y gweithdrefnau cwyno hyn eu cyflwyno mewn dogfen gyfunol a oedd ar gael mewn lle amlwg yn yr ystafell aros, fel bod cleifion yn gallu cael mynediad at yr wybodaeth hon yn hawdd, pe bai ei hangen arnynt.

Cynghorwyd a chytunodd rheolwr y practis, er mwyn eglurder, y dylai'r ddogfen gwyno gael ei rhannu'n ddwy fel bod manylion cyswllt ar gyfer cwynion cleifion y GIG a manylion cyswllt ar gyfer cwynion cleifion preifat yn cael eu gwneud yn gliriach i'r darllenydd.

Ychydig iawn o gwynion gan y cleifion a dderbyniwyd dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd system cofnodi cwynion yn electronig o'r enw 'I Casework' ar waith, sydd â fformat cynhwysfawr o dderbyn cwynion hyd at y broses gau. Mae'r system hon hefyd yn cofnodi pryderon. Mae gan Oasis Healthcare Ltd, y mae'r practis hwn yn rhan ohono, dîm rheoli cwynion canolog ac mae cwynion electronig y mae'r practis yn eu derbyn yn cael eu harchwilio'n ganolog yn fisol i ganiatáu i unrhyw themâu cyffredin gael eu nodi. Rheolwr y practis oedd yr unigolyn penodedig ar gyfer cwynion. Dywedodd y rhan fwyaf o'r cleifion a gwblhaodd holiadur wrthym y gofynnid iddynt am eu safbwyntiau am y practis deintyddol – er enghraifft, trwy holiaduron i gleifion.

---

[1] http://www.wales.nhs.uk/sites3/page.cfm?orgid=932&pid=50738

[2] https://www.dentalprotection.org/uk/help-advice/regulations/wales/private-dentistry-(wales)-regulations-2008

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau yn darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Ar y cyfan, canfuom dystiolaeth fod y practis yn darparu gofal deintyddol diogel ac effeithiol i gleifion. Roedd digon o gyfarpar yn y cyfleusterau clinigol ac roeddent yn ymddangos yn lân a thaclus. Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Fodd bynnag, rhaid cynnal adolygiad a chymryd camau gweithredu o ran gwneud y mynediad at y storfa a'r ystafell ddadheintio yn fwy diogel. Roeddem yn fodlon ar y trefniadau oedd ar waith er mwyn amddiffyn cleifion a staff rhag heintiau ataliadwy sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. Fodd bynnag, mae angen dilysiad pellach ar gyfer statws gwirio brechiad imiwneiddio tri aelod o staff. Rhaid i'r practis (Oasis Healthcare Ltd) ddiwygio ei bolisi rheoli heintiau.

Roedd cyfarpar dadebru a chyffuriau brys ar gael yn y practis ac roedd systemau ar waith i helpu i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Roedd trefniadau ar waith ar gyfer defnyddio offer pelydr-X yn ddiogel. Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac i ddiogelu lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl. Roedd gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer pob deintydd yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Canfuom fod y practis wedi cymryd camau i helpu i amddiffyn iechyd, diogelwch a llesiant y staff a'r cleifion. Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi'u cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn cael eu

defnyddio’n ddiogel yn y practis. Roedd tystysgrif bob pum mlynedd ar gyfer gwifrau electronig yr adeilad a thystysgrif nwy ar waith.

Roedd toiled neillryw ar gyfer defnydd cleifion a staff, gan gynnwys mynediad anabl ar y llawr gwaelod ag arwyddbost clir arno. Roedd yn amlwg yn lân ac yn cynnwys bin ar gyfer gwastraff glanweithiol. Roedd dogfennau contract ar waith ar gyfer cael gwared ar wastraff peryglus a gwastraff nad yw'n beryglus. Roedd cynwysyddion offer miniog yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd asesiadau risg ar gyfer Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) a thaflenni data diogelwch yn cael eu cadw ar gyfer sylweddau yn ogystal ag asesiadau risg. Roedd sylweddau COSHH yn cael eu cadw'n ddiogel. Mae angen adolygu mynediad at ardaloedd i staff yn unig i sicrhau diogelwch y cleifion.

Roedd diffoddwyr tân ar gael a oedd wedi'u gwasanaethu o fewn y flwyddyn ddiwethaf, ynghyd â chontract cynnal a chadw ar gyfer offer diogelwch tân ac asesiadau risg tân amlwg. Roedd arwyddion tân ar gael. Roedd polisi iechyd a diogelwch ar waith.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid cynnal adolygiad a chymryd camau gweithredu o ran gwneud y mynediad at y storfa a'r ystafell ddadheintio'n fwy diogel.

## Atal a rheoli heintiau

Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd pob un o’r cleifion a lenwodd holiadur yn teimlo bod y practis deintyddol, yn eu barn nhw, yn lân iawn. Ar ddiwrnod yr arolygiad, canfuom fod y practis wedi ei gynnal a’i gadw’n dda yn ôl pob golwg ac roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus.

Roeddem yn fodlon ar y trefniadau ar gyfer amddiffyn staff a chleifion rhag heintiau ataliadwy sy’n gysylltiedig â gofal iechyd yn y practis deintyddol. Mae hyn am i ni weld tystiolaeth bod mesurau atal a rheoli heintiau ar waith. Roedd enghreifftiau yn cynnwys y canlynol:

- Ystafell bwrpasol ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Cyfarpar diogelu personol megis menig a ffedogau untro a chyfarpar diogelu llygaid ar gael ac yn cael ei ddefnyddio

- Sinc benodedig i olchi dwylo
- Roedd y cyfarpar a oedd yn cael ei ddefnyddio i lanhau a sterileiddio offer deintyddol mewn cyflwr da, yn ôl pob golwg
- Roedd offer deintyddol yn cael eu storio a'u cludo mewn modd priodol, ac roedd dyddiad ar y pecynnau i ddangos erbyn pryd roedd yn rhaid defnyddio'r offer

Roedd polisi dadheintio ar waith a gwelsom dystiolaeth fod y staff yn llofnodi ac yn dyddio i ddangos eu bod wedi ystyried y prif bolisïau. Canfuom dystiolaeth fod gwiriadau o ran statws brechiadau imiwneiddio aelodau staff ar gael. Fodd bynnag, roedd angen dilysiad pellach ar gyfer statws gwirio brechiad imiwneiddio tri aelod o staff.

Roedd y practis wedi cynnal archwiliad rheoli heintiau yn ddiweddar, yn unol â chanllawiau Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05,[3] ac roedd y staff perthnasol wedi cwblhau hyfforddiant diweddaru ym maes dadheintio bob pum mlynedd. Fodd bynnag, gwnaethom nodi bod polisi rheoli heintiau'r practis (Oasis Healthcare Ltd) yn dal i gyfeirio at Femorandwm Technegol Iechyd (HTM) 01-05 ac nid Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 fel sy'n ofynnol.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen dilysiad pellach ar gyfer statws gwirio brechiad imiwneiddio tri aelod o staff. Dylid anfon tystiolaeth ddogfennol ymlaen at AGIC.

Rhaid i'r practis (Oasis Healthcare Ltd) ddiwygio ei bolisi rheoli heintiau ar gyfer practisau deintyddol yng Nghymru er mwyn cyfeirio at Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac nid Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) 01-05.

## Rheoli meddyginiaethau

Roedd gweithdrefnau ar waith yn y practis a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion ac roedd y rhain yn cael eu harddangos mewn ardaloedd perthnasol. Roedd yr holl staff clinigol wedi derbyn hyfforddiant

[3] http://www.wales.nhs.uk/sites3/docopen.cfm?orgid=254&id=232444

dadebru cardio-pwlmonaidd cyfredol. Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel mewn lleoliad a oedd yn sicrhau eu bod ar gael ar unwaith pe bai argyfwng meddygol (claf yn cwympo) yn y practis. Gwelsom dystiolaeth fod system effeithiol ar waith i wirio'r offer a'r cyffuriau brys i sicrhau eu bod yn parhau i fod o fewn eu dyddiad dod i ben a'u bod yn barod i'w defnyddio. Roedd polisi dadebru ar waith a oedd yn cynnwys lleoliad y cyfarpar a rolau a chyfrifoldebau. Roedd swyddogion cymorth cyntaf penodol ar gael yn y practis a oedd wedi cael hyfforddiant.

## Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd y practis wedi cymryd camau i hyrwyddo ac amddiffyn lles a diogelwch plant ac oedolion sy'n agored i niwed a allai fod mewn perygl. Y rheswm am hwn yw bod polisïau amddiffyn priodol ar waith a bod hyfforddiant diogelu'n cael ei ddarparu i staff perthnasol.

Roedd trefniadau ar waith i staff leisio unrhyw bryderon a dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo y gallent wneud hyn.

## Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar y cyfleusterau clinigol yn yr ystafelloedd triniaeth a chanfod eu bod yn cynnwys yr offer perthnasol ar gyfer diogelwch cleifion a'r tîm deintyddol. Gwnaethom sylwi bod yr ystafelloedd triniaeth wedi'u cynllunio a'u trefnu i helpu'r tîm i weithio'n effeithlon, ac roeddent yn amlwg yn lân iawn ac mewn cyflwr da.

Gwelsom fod yr amgylchedd wedi cael ei gynllunio a'i drefnu i sicrhau bod offer ymbelydredd yn cael eu defnyddio'n ddiogel. Roedd ffeil ymbelydredd ar gael yn y practis a oedd yn cynnwys gwybodaeth allweddol. Gwelsom ddogfennau a oedd yn dangos bod y peiriannau pelydr-X wedi cael eu gwasanaethu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Canfuom fod staff a oedd yn cymryd rhan yn y gwaith o dynnu radiograffau wedi cwblhau'r hyfforddiant gofynnol, yn unol â gofynion y Cyngor Deintyddol Cyffredinol a Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000.[4]

[4] http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/pdfs/uksi_20001059_en.pdf

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Mae cleifion yn elwa ar bractis sy'n ceisio gwella'r gwasanaeth a ddarperir yn barhaus. Gwelsom fod y practis yn cynnal archwiliadau perthnasol, gan gynnwys rheoli heintiau ac archwiliadau radiograffig a nodiadau clinigol mewnol bob chwe mis.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Mae archwilydd mewnol Oasis Healthcare Ltd yn cynnal ymweliadau archwilio rheolaidd â'r practis ac mae'r ymgynghorydd cymorth clinigol rhanbarthol yn cynnal archwiliad adolygu clinigol blynyddol.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Roedd ffeiliau cleifion yn cael eu storio mewn modd priodol er mwyn sicrhau diogelwch data personol. Roedd copi wrth gefn o'r holl ffeiliau electronig yn cael ei gadw'n rheolaidd ac roedd mynediad at sgriniau cyfrifiadur yn ddiogel ac yn gynnil. Roedd polisi diogelu data ar waith.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom edrych ar sampl o gofnodion deintyddol dau ddeintydd a gwnaethom siarad â'r ddau ymarferydd deintyddol oedd ar gael ar ddiwrnod ein harolygiad. Ar y cyfan, cawsom fod ansawdd y cofnodion a gedwid a'r gofal cleifion yn dda iawn. Ni nodwyd unrhyw welliannau yn y maes hwn ac felly mae ansawdd cadw cofnodion clinigol i'w ganmol.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi'r ddarpariaeth o ofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain ochr yn ochr â'r Safonau Iechyd a Gofal.*

Mae Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, yn rhan o Oasis Healthcare Ltd, sydd â thîm corfforaethol sefydledig sy'n cefnogi'r tîm deintyddol a rheolwr y practis gyda'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Gwelsom fod gan y practis arweinyddiaeth dda a llinellau atebolrwydd clir. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth gan uwch staff y practis a'u cydweithwyr a bod ganddynt gyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol. Roedd y staff y gwnaethom siarad â nhw yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i gleifion.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, yn rhan o Oasis Healthcare Ltd, sydd â thîm corfforaethol sefydledig sy'n cefnogi'r tîm deintyddol a rheolwr y practis gyda'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth rheolwr y practis ddangos ymrwymiad i fynd i'r afael â'r rhain yn gyflym. Roedd gwybodaeth am y cleifion yn cael ei storio'n ddiogel yn unol â chanllawiau diogelu data.

Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael digon o gefnogaeth yn eu swyddi gan bob un o aelodau tîm y practis. Canfuom fod y staff yn eglur am eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da ymhlith tîm y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd practis a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd, a gwelsom fod cofnodion yn cael eu cadw.

Gwnaethom awgrymu wrth reolwr y practis y dylid defnyddio'r fformat cyfarfodydd staff sydd ar gael, a fydd yn dal eitemau sefydlog, pwyntiau/perchnogion camau gweithredu a chanlyniadau.

Roedd amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

## Staff ac adnoddau

### Gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod yr holl staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell yn fawr iawn.

Roedd gan y practis dîm staff cyson a sefydlog, a chafodd gwaith tîm da ei adrodd a'i weld ar ddiwrnod yr arolygiad. Gwelsom dystiolaeth fod y staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Roedd yr holl staff perthnasol wedi’u cofrestru gyda’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol. Roedd y deintyddion a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat a gwelsom eu tystysgrifau cofrestru ag AGIC wedi'u harddangos mewn lle amlwg, fel sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008, a gwelsom gadarnhad o yswiriant indemniad.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hunain a chleifion rhag heintiau.

Roedd systemau ar waith i sicrhau bod gwiriadau cyn cyflogaeth unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu cynnal cyn iddynt ymuno â'r practis, gan gynnwys gwiriadau clirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd gwiriadau diogelu'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn gyfredol ar gyfer y pedwar deintydd, a oedd yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat.

# 4. Beth sydd nesaf?

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon sydd angen sylw ar unwaith yn ystod ein harolygiad, ac sy'n gofyn am gamau gweithredu gan y gwasanaeth, mae'r rhain yn cael eu nodi yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle mae'r rhain yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb ynghylch unrhyw bryderon dybryd o ran diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynglŷn â diogelwch cleifion lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn ein hysbysu o'r camau gweithredu brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn nodi bod angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella yn ein hysbysu o'r camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn cael sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylder i ddarparu AGIC a'r cyhoedd â sicrwydd y bydd y gwasanaeth yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r canfyddiadau a nodwyd

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws adrannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Darparu AGIC â diweddariadau pan fydd camau gweithredu'n dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

## 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, bydd arolygiadau practisau deintyddol yn arolygiadau lle rhoddir rhybudd. Mae practisau deintyddol yn derbyn hyd at ddeuddeg wythnos o rybudd o arolygiad. Mae hyn er mwyn rhoi trefniadau ar waith i sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn amharu ar gleifion cyn lleied ag y bo modd.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygiad a gwelliant ar lefelau gweithredol a strategol.

Rydym yn gwirio sut mae practisau deintyddol yn bodloni Safonau Iechyd a Gofal 2015 <http://gov.wales/docs/dhss/publications/150402standardsen.pdf>. Bydd unrhyw ddeintydd yn y practis sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn destun darpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2008/1976/contents/made>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011 <http://www.legislation.gov.uk/wsi/2011/2686/contents/made>. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/3232/contents/made>, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000 <http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1059/contents/made>, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis 'Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol <https://www.gdc-uk.org/professionals/standards>.

Mae'r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal mewn practisau deintyddol.

Ceir mwy o fanylion am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a'r GIG ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a uwchgyfeiriwyd yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith (neu’r effaith bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

## Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, Oasis Healthcare Ltd

**Dyddiad yr arolygiad:** **7 Medi 2017**

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon ar unwaith ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle roedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

### Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras):

Swydd:

Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Practis Deintyddol Smiles, Pen-twyn, Oasis Healthcare Ltd

### Dyddiad yr arolygiad: 7 Medi 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y mae’n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Mae angen sicrhau bod rhagor o wybodaeth hybu iechyd ar gael ar gyfer cleifion yn y mannau aros. | Safonau Iechyd a Gofal 1.1 a 4.2<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>Rheoliad 14 (1) (a) | Rydym wedi archebu nifer o daflenni ar gyfer y practis, gan gynnwys rhoi'r gorau i ysmygu, ymwybyddiaeth canser y geg, iechyd ceg plant, gofal ar gyfer dyfeisiau orthodontig, a chyngor ar ddeiet.<br>Gwnaed yr archeb ar 15 Hydref 2017 – cânt eu harddangos yn yr ystafell aros unwaith y cânt eu danfon. | Tracey Hellier (Nyrs Arwain)<br>Nicola Hooper (Rheolwr y Practis) | 30 Tachwedd 2017 |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu’r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Rhaid cynnal adolygiad a chymryd camau gweithredu o ran gwneud y mynediad at y storfa a'r ystafell ddadheintio'n fwy diogel. | Safonau Iechyd a Gofal 2.1<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (d) | Mae clo â chod wedi cael ei osod ar ddrws y storfa – gosodwyd ar 21 Medi 2017. | Tracey Hellier (Nyrs Arwain)<br>Nicola Hooper (Rheolwr y Practis) | Cwblhawyd |
| Mae angen dilysiad pellach ar gyfer statws gwirio brechiad imiwneiddio tri aelod o staff. Dylid anfon tystiolaeth ddogfennol ymlaen at AGIC. | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | Mae'r tri aelod o staff mewn cysylltiad â'r adran iechyd galwedigaethol leol ac yn aros am gadarnhad ysgrifenedig o fanylion y statws gwirio imiwnedd – fe gawsom wybod y gallai gymryd peth amser cyn cael ymateb am hyn. | Nicola Hooper (Rheolwr y Practis) | 31 Rhagfyr 2017 |
| Rhaid i'r practis (Oasis Healthcare Ltd) ddiwygio ei bolisi rheoli heintiau ar gyfer practisau deintyddol yng Nghymru er mwyn cyfeirio at Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 ac nid Memorandwm Technegol Iechyd (HTM) | Safonau Iechyd a Gofal 2.4<br>Rheoliadau Deintyddiaeth | Cafodd hyn ei drosglwyddo at dîm prif swyddfa Oasis Dental Care er mwyn ei adolygu ac rydym yn aros am ymateb. | Nicola Hooper (Rheolwr y Practis) | 31 Rhagfyr 2017 |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| 01-05. | Breifat (Cymru) 2008<br>14 (1) (b) | | | |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Ni nodwyd unrhyw faterion. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (llythrennau bras): Nicola Hooper

Swydd: Rheolwr y practis

**Dyddiad: 12 Hydref 2017**